ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales
Datganiad Ystadegol Cyntaf
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cwnsela i Blant a Phobl Ifanc, 2019/20


**27 Mai 2021**
**SFR 159/2021**

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â chyfnod amser sy'n cynnwys peth o'r pandemig coronafeirws (COVID-19). Mae cau ysgolion rhwng Mawrth ac Awst 2020 yn debygol o fod wedi cael effaith ar yr ystadegau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn. Mae'r ystadegau hyn yn cynnwys cwnsela wyneb yn wyneb yn unig rhwng Medi 2019 a Mawrth 2020 a cwnsela a gynhaliwyd trwy sesiynau wyneb yn wyneb ar-lein yn ystod y pandemig.

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru ddarparu gwasanaethau cwnsela annibynnol rhesymol ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 11 a 18 oed ar safle pob ysgol uwchradd y mae'n ei chynnal a disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn yr ysgol gynradd. Yn ychwanegol, gall awdurdod lleol gynnig gwasanaethau cwnsela mewn lleoliadau eraill, e.e. mewn ysgolion annibynnol, colegau addysg bellach neu mewn cyfleusterau cymunedol eraill.

Mae'r data hyn yn llywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau cwnsela ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru.

**Siart 1: Nifer y plant a'r bobl ifanc a gafodd eu cwnsela yng Nghymru, yn ôl rhyw, yn 2019/20**




- Roedd 85 y cant o blant a phobl ifanc a gafodd eu cwnsela yn 2019/20 rhwng grwpiau oedran blwyddyn 7 ac 11.
- Atgyfeiriad gan staff ysgol a staff addysgol eraill oedd y math mwyaf cyffredin o atgyfeiriad, gan gyfrif am dros hanner yr holl atgyfeiriadau.
- Am y tro cyntaf, materion pryder oedd y math mwyaf cyffredin o faterion a gyflwynwyd. Mae materion teuluol yn parhau i fod y math mwyaf cyffredin o brif fater.

## Ynglŷn â'r datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn ymdrin â'r gwasanaethau cwnsela a ddarperir gan awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 10 a 18 oed. Mae'n cynnwys blwyddyn ysgol 2019/20; hynny yw Medi 2019 i Awst 2020.

Mae'r data a ddangosir ar gyfer Cymru, ac ar lefel awdurdod lleol.

## Yn y datganiad hwn

Rhyw, awdurdod lleol, y math o atgyfeiriad, grŵp oedran ac ethnigrwydd 3
Y materion a gyflwynwyd a'r prif faterion 10
Sgôr Craidd YP Cyfartalog 14
Atgyfeirio achosion ymlaen 16
Sesiynau cwnsela a fynychwyd 17
Gwybodaeth allweddol am ansawdd 18

Ystadegydd: Steve Hughes ~ 0300 025 5060 ~ ystadegau.ysgolion@llyw.cymru

Ymholiadau gan y wasg: 0300 025 8099 Ymholiadau gan y cyhoedd: 0300 025 5050 Twitter: @YstadegauCymru

## Cynnwys


| | | Page |
|---|---|---|
| **Adran 1** | **Plant a phobl ifanc a gafodd eu cwnsela yn ôl rhyw, awdurdod lleol, y math o atgyfeiriad, grŵp oedran ac ethnigrwydd** | **3** |
| Siart 2 | Nifer y plant a'r bobl ifanc a gafodd eu cwnsela yng Nghymru | 3 |
| Siart 3 | Nifer y plant a'r bobl ifanc (fesul 100 o drigolion 10-18 oed) a gafodd eu cwnsela yng Nghymru, yn ôl awdurdod lleol, yn 2019/20 | 4 |
| Tabl 1 | Nifer y plant a'r bobl ifanc a gafodd eu cwnsela (ac eithrio cwnsela ar-lein) yng Nghymru, yn ôl awdurdod lleol, yn 2019/20 | 5 |
| Siart 4 | Nifer y plant a'r bobl ifanc a gafodd eu cwnsela yng Nghymru yn ôl y math o atgyfeiriad | 6 |
| Siart 5 | Y math o atgyfeiriad ar gyfer plant a phobl ifanc a gafodd eu cwnsela, yn ôl rhyw, yn 2019/20 | 7 |
| Siart 6 | Nifer y plant a'r bobl ifanc a gafodd eu cwnsela yng Nghymru, yn ôl grŵp oedran blwyddyn ysgol | 8 |
| Siart 7 | Nifer y plant a'r bobl ifanc a gafodd eu cwnsela yng Nghymru, yn ôl rhyw a grŵp oedran blwyddyn ysgol, yn 2019/20 | 9 |
| Tabl 2 | Nifer a chanran y plant a'r bobl ifanc a gafodd eu cwnsela yng Nghymru, yn ôl cefndir ethnig | 9 |
| **Adran 2** | **Y materion a gyflwynwyd a'r prif faterion** | 10 |
| Siart 8 | Y materion amlycaf a gyflwynwyd ar gyfer plant a phobl ifanc a gafodd eu cwnsela yng Nghymru yn 2019/20 | 10 |
| Tabl 3 | Yr holl faterion a gyflwynwyd ar gyfer plant a phobl ifanc a gafodd eu cwnsela yng Nghymru yn 2019/20 | 11 |
| Siart 9 | Y prif faterion amlycaf ar gyfer plant a phobl ifanc a gafodd eu cwnsela yng Nghymru yn 2019/20 | 12 |
| Tabl 4 | Yr holl brif faterion ar gyfer plant a phobl ifanc a gafodd eu cwnsela yng Nghymru yn 2019/20 | 13 |
| **Adran 3** | **Sgôr Craidd YP Cyfartalog** | 14 |
| Siart 10 | Gwelliant ar gyfartaledd yn Sgôr Craidd YP ar gyfer plant a phobl ifanc a gafodd gwnsela yng Nghymru yn ôl awdurdod lleol yn 2019/20 | 14 |
| Tabl 5 | Sgôr Craidd YP ar gyfartaledd ar gyfer plant a phobl ifanc a dderbyniodd gwnsela yng Nghymru yn ôl awdurdod lleol yn 2019/20 | 15 |
| **Adran 4** | **Atgyfeiriadau ymlaen** | 16 |
| Siart 11 | Nifer y plant a'r bobl ifanc a gafodd eu hatgyfeirio ymlaen ar ôl cwblhau sesiynau cwnsela yng Nghymru yn 2019/20 | 16 |
| Tabl 6 | Nifer y plant a'r bobl ifanc a gafodd eu hatgyfeirio ymlaen ar ôl cwblhau sesiynau cwnsela yng Nghymru yn 2019/20 | 16 |
| **Adran 5** | **Sesiynau cwnsela a fynychwyd** | 17 |
| Siart 12 | Nifer cyfartalog y sesiynau cwnsela a fynychwyd gan blant a phobl ifanc a gafodd eu cwnsela yng Nghymru | 17 |
| Siart 13 | Nifer cyfartalog y sesiynau cwnsela a fynychwyd gan blant a phobl ifanc a gafodd eu cwnsela yng Nghymru, yn ôl awdurdod lleol, yn 2019/20 | 17 |


**Gwybodaeth allweddol am ansawdd** 18

Mae cynghori yn y cyd-destun hwn yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc siarad wyneb yn wyneb â chynghorydd am eu pryderon, i weithio trwy deimladau anodd fel y gallant ddysgu eu rheoli. Lle y bo'n briodol, gall cwnsela arwain at atgyfeiriad i wasanaeth arall (e.e. Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), gwasanaethau amddiffyn plant).

Mae'r holl siartiau a thablau isod yn ymwneud â chwnsela wyneb yn wyneb yn unig. Fodd bynnag, mae cwnsela a gynhaliwyd trwy sesiynau wyneb yn wyneb ar-lein rhwng Mawrth ac Awst 2020 wedi'i gynnwys.

## Adran 1: Plant a phobl ifanc a gafodd eu cwnsela yn ôl rhyw, awdurdod lleol, y math o atgyfeiriad, grŵp oedran ac ethnigrwydd


**Siart 2: Nifer y plant a'r bobl ifanc a gafodd eu cwnsela yng Nghymru**




Ffynhonnell: Cwnsela ar gyfer plant a phobl ifanc, Llywodraeth Cymru

- Cafodd 9,666 o blant a phobl ifanc wasanaethau cwnsela yn 2019/20, gostyngiad o 18 y cant o'i gymharu â 2018/19. Mae cau ysgolion rhwng Mawrth ac Awst 2020 oherwydd y pandemig coronafeirws (COVID-19) yn debygol o fod wedi cael effaith ar y ffigurau ar gyfer 2019/20.
- Merched oedd 66%, neu 6,372, o'r 9,666 o blant a gafodd eu cwnsela yn 2019/20, o gymharu â 34%, neu 3,294, o fechgyn (Siart 1). Mae'r rhaniad rhyw yn debyg i flynyddoedd blaenorol.

**Siart 3: Nifer y plant a'r bobl ifanc (fesul 100 o drigolion rhwng 10 a 18 oed) a gafodd eu cwnsela yng Nghymru, yn ôl awdurdod lleol, yn 2019/20 (a)**




Ffynhonnell: Cwnsela ar gyfer plant a phobl ifanc, Llywodraeth Cymru

(a) Daw'r amcangyfrifon poblogaeth o amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2019 y Swyddfa Ystadegau Gwladol.


- Cafodd 3.1 o blant a phobl ifanc fesul 100 o drigolion 10-18 oed eu cwnsela yng Nghymru yn 2019/20.
- Yn Merthyr Tudful y gwelwyd y gyfradd uchaf o blant a phobl ifanc fesul 100 o drigolion 10-18 oed a gafodd eu cwnsela (6.9 yn 2019/20, Siart 3).
- Yn Abertawe hefyd y gwelwyd y nifer mwyaf o blant a phobl ifanc a gafodd eu cwnsela (1,158 yn 2019/20, Tabl 1).
- Yng Nghaerffili a Sir y Fflint y gwelwyd y gyfradd isaf o blant a phobl ifanc fesul 100 o drigolion 10-18 oed a gafodd eu cwnsela (1.4 yn 2019/20, Siart 3).
- Yn Sir Fynwy y gwelwyd y nifer lleiaf o blant a phobl ifanc a gafodd eu cwnsela (160 yn 2019/20, Tabl 1).

**Tabl 1: Nifer y plant a'r bobl ifanc a gafodd eu cwnsela yng Nghymru, yn ôl awdurdod lleol, yn 2019/20**

| Awdurdod lleol | Gwryw | Benyw | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn/Gwynedd | 131 | 302 | 433 |
| Conwy | 81 | 119 | 200 |
| Sir Ddinbych | 96 | 169 | 265 |
| Sir y Fflint | 75 | 151 | 226 |
| | | | |
| Wrecsam | 191 | 322 | 513 |
| Powys | 175 | 367 | 542 |
| Sir Ceredigion | 93 | 169 | 262 |
| Sir Benfro | 215 | 444 | 659 |
| Sir Gaerfyrddin | 370 | 613 | 983 |
| | | | |
| Abertawe | 384 | 774 | 1,158 |
| Castell-nedd Port Talbot | 181 | 370 | 551 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 86 | 202 | 288 |
| Bro Morgannwg | 82 | 238 | 320 |
| Caerdydd | 191 | 441 | 632 |
| | | | |
| Rhondda Cynon Taf | 368 | 581 | 949 |
| Merthyr Tudful | 133 | 288 | 421 |
| Caerffili | 110 | 150 | 260 |
| Blaenau Gwent | 69 | 105 | 174 |
| Torfaen | 96 | 256 | 352 |
| | | | |
| Sir Fynwy | 64 | 96 | 160 |
| Casnewydd | 103 | 215 | 318 |
| | | | |
| **Cymru** | **3,294** | **6,372** | **9,666** |

Ffynhonnell: Cwnsela ar gyfer plant a phobl ifanc, Llywodraeth Cymru

**Siart 4: Nifer y plant a’r bobl ifanc a gafodd eu cwnsela yng Nghymru yn ôl y math o atgyfeiriad**





Ffynhonnell: Cwnsela ar gyfer plant a phobl ifanc, Llywodraeth Cymru

(a) Mae heb ei nodi yn cynnwys y categorïau ‘Dewis peidio dweud’, ‘Ddim yn hysbys’ ac ‘Arall’.

- Atgyfeiriad gan staff ysgol a staff addysgol eraill oedd y math mwyaf cyffredin o atgyfeiriad, gan gyfrif am hanner yr holl atgyfeiriadau (51%) yn 2019/20. Hunanatgyfeiriad oedd yr ail fath mwyaf cyffredin o atgyfeiriad (31%) yn 2019/20, ac yna atgyfeiriad gan rieni (11%).
- Gostyngodd pob math o atgyfeirio o'i gymharu â'r llynedd, ac eithrio'r rhai na nodwyd. Lleihaodd hunangyfeiriadau fwyaf.

**Siart 5: Y math o atgyfeiriad ar gyfer plant a phobl ifanc a gafodd eu cwnsela, yn ôl rhyw, yn 2019/20**





Ffynhonnell: Cwnsela ar gyfer plant a phobl ifanc, Llywodraeth Cymru

(a) Mae heb ei nodi yn cynnwys y categorïau 'Dewis peidio dweud', 'Ddim yn hysbys' ac 'Arall'.

- Roedd y bechgyn a'r merched a oedd yn mynychu gwasanaethau cwnsela yn arddangos tuedd debyg o ran y modd y cawsant eu hatgyfeirio, gydag atgyfeiriad gan staff ysgol yn fwyaf cyffredin, ac yna hunanatgyfeiriad, a hynny ar gyfer y bechgyn a'r merched.
- Fodd bynnag, roedd bechgyn yn fwy tebygol o gael eu hatgyfeirio gan staff ysgol a staff addysgol eraill (56% o'r holl fechgyn a atgyfeiriwyd) o gymharu â'u cyfoedion a oedd yn ferched (49% y cant o'r holl ferched a atgyfeiriwyd).
- I'r gwrthwyneb, roedd merched yn fwy tebygol o'u hatgyfeirio eu hunain (34% o'r holl ferched a atgyfeiriwyd) o gymharu â'u cyfoedion a oedd yn fechgyn (26% o'r holl fechgyn a atgyfeiriwyd).


**Siart 6: Nifer y plant a'r bobl ifanc a gafodd eu cwnsela yng Nghymru, yn ôl grŵp oedran blwyddyn ysgol**




Ffynhonnell: Cwnsela ar gyfer plant a phobl ifanc, Llywodraeth Cymru

- Yng ngrŵp oedran Blwyddyn 10 (mae rhan fwyaf o'r plant o oedran 14-15) y gwelwyd y nifer uchaf o blant a phobl ifanc a gafodd eu cwnsela, yna grŵp oedran Blwyddyn 11, yn 2019/20. Yng ngrŵp oedran Blwyddyn 13 (hynny yw, y bobl ifanc hynny yn y chweched dosbarth neu sydd wedi gadael yr ysgol) y gwelwyd y nifer isaf.
- Roedd grŵp oedran Blwyddyn 10 yn cyfrif am 20% o'r holl blant a phobl ifanc a gafodd eu cwnsela yn 2019/20.
- Roedd 85% o'r holl blant a phobl ifanc a dderbyniodd gwnsela rhwng y grwpiau oedran Blwyddyn 7 a Blwyddyn 11 yn 2019/20, er bod hyn yn cael ei lywio'n bennaf gan dueddiadau ar draws oedran mewn cwnsela ar gyfer menywod fel y dangosir yn yr adran ganlynol.
- Gostyngodd nifer y plant a'r bobl ifanc a dderbyniodd gwnsela o'i gymharu â'r llynedd ar gyfer pob grŵp blwyddyn ac eithrio Blwyddyn 12.

**Siart 7: Nifer y plant a'r bobl ifanc a gafodd eu cwnsela yng Nghymru, yn ôl rhyw a grŵp oedran blwyddyn ysgol, yn 2019/20**




Ffynhonnell: Cwnsela ar gyfer plant a phobl ifanc, Llywodraeth Cymru

- Roedd mwy o ferched na bechgyn a gafodd eu cwnsela ym mhob grŵp blwyddyn, er bod niferoedd Blwyddyn 6 ar gyfer bechgyn a merched yn debyg.
- O flwyddyn 7 i flwyddyn 11 parhaodd nifer y bechgyn a oedd yn mynychu sesiynau cwnsela yn gymharol sefydlog, gyda rhwng 450 a 600 ym mhob grŵp blwyddyn. Fodd bynnag, cynyddodd nifer y merched yn sylweddol o flwyddyn 7 i flwyddyn 10 o'i gymharu â'u cyfoedion a oedd yn fechgyn, gan gyrraedd y nifer uchaf ym mlwyddyn 10 o 1,352 o ferched.

**Tabl 2: Nifer a chanran y plant a'r bobl ifanc a gafodd eu cwnsela yng Nghymru, yn ôl cefndir ethnig**

| | 2017/18 | | 2018/19 | | 2019/20 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cefndir ethnig | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| Gwyn | 10,838 | 95.4 | 10,963 | 93.3 | 8,915 | 92.2 |
| O Dras Cymysg | 231 | 2.0 | 257 | 2.2 | 190 | 2.0 |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig | 128 | 1.1 | 142 | 1.2 | 113 | 1.2 |
| Du neu Ddu Prydeinig | 45 | 0.4 | 51 | 0.4 | 56 | 0.6 |
| Tsieineaidd neu Dsieineaidd Prydeinig | 17 | 0.1 | 8 | 0.1 | 6 | 0.1 |
| Unrhyw gefndir ethnig arall | 60 | 0.5 | 115 | 1.0 | 75 | 0.8 |
| Anhysbys | 46 | 0.4 | 217 | 1.8 | 311 | 3.2 |
| **Cyfanswm** | **11,365** | **100.0** | **11,753** | **100.0** | **9,666** | **100.0** |


Ffynhonnell: Cwnsela ar gyfer plant a phobl ifanc, Llywodraeth Cymru

- Roedd mwyafrif (92%) y plant a'r bobl ifanc a gafodd eu cwnsela yn ystyried eu hunain yn wyn yn 2019/20. Mae'r dosbarthiad a welir yn Nhabl 2 fwy neu lai yn cynrychioli'r dosbarthiad o bobl ifanc yn y boblogaeth ysgol ehangach.

## Adran 2: Y materion a gyflwynwyd a'r prif faterion

Mater a gyflwynir yw'r rheswm pam y mae cleient yn hunanatgyfeirio at gwnselydd. Gofynnir i awdurdodau lleol gofnodi hyd at dri mater a gyflwynir fesul plentyn neu berson ifanc. Mae'r siart isod yn dangos canran y plant a'r bobl ifanc a gafodd eu cwnsela, ynghyd â'r pum mater mwyaf cyffredin a gyflwynwyd.

**Siart 8: Y materion amlycaf a gyflwynwyd ar gyfer plant a phobl ifanc a gafodd eu cwnsela yng Nghymru yn 2019/20**




Ffynhonnell: Cwnsela ar gyfer plant a phobl ifanc, Llywodraeth Cymru

(a) Mae 'Perthynasoedd ag eraill' yn berthnasoedd heblaw gyda chariad / cariad neu gydag athrawon.

- Cofnodwyd materion a gyflwynwyd ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc a gafodd wasanaethau cwnsela yng Nghymru. Roedd y gyfran a oedd â phryder yn uwch na materion teuluol am y tro cyntaf ac mae wedi codi o 29% yn 2018/19 i 35% yn 2019/20.
- Y math mwyaf cyffredin o fater a gyflwynwyd adeg atgyfeirio ar gyfer merched oedd materion pryder (38%). Ar gyfer dynion, materion teuluol oedd y mwyaf cyffredin (31%).
- O'r materion mwyaf cyffredin eraill a gyflwynwyd a chofnodwyd, roedd bechgyn yn fwy tebygol o gael eu hatgyfeirio oherwydd materion dicter, er bod merched yn fwy tebygol na bechgyn o gael eu hatgyfeirio am faterion yn ymwneud â perthnasoedd ag eraill.
- Y pedwerydd mater uchaf a gyflwynwyd ar gyfer bechgyn oedd materion ymddygiadol (15%) a'r pedwerydd mater uchaf ar gyfer merched oedd hunan-werth (13%) yn Nhabl 3.

**Tabl 3: Yr holl faterion a gyflwynwyd ar gyfer plant a phobl ifanc a gafodd eu cwnsela yng Nghymru yn 2019/20 (a)**


| | Gwryw | | Benyw | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Materion a gyflwynwyd adeg atgyfeirio | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| Pryder | 970 | 29.4 | 2,449 | 38.4 | 3,419 | 35.4 |
| Teulu | 1,022 | 31.0 | 2,122 | 33.3 | 3,144 | 32.5 |
| Dicter | 781 | 23.7 | 625 | 9.8 | 1,406 | 14.5 |
| Straen | 388 | 11.8 | 782 | 12.3 | 1,170 | 12.1 |
| Perthnasoedd ag eraill | 259 | 7.9 | 868 | 13.6 | 1,127 | 11.7 |
| Hunan-werth | 302 | 9.2 | 814 | 12.8 | 1,116 | 11.5 |
| Iselder | 341 | 10.4 | 727 | 11.4 | 1,068 | 11.0 |
| Profedigaeth | 329 | 10.0 | 546 | 8.6 | 875 | 9.1 |
| Ymddygiadol | 488 | 14.8 | 367 | 5.8 | 855 | 8.8 |
| Hunan-niwed | 147 | 4.5 | 623 | 9.8 | 770 | 8.0 |
| Bwlio | 193 | 5.9 | 384 | 6.0 | 577 | 6.0 |
| Academaidd | 185 | 5.6 | 313 | 4.9 | 498 | 5.2 |
| Hunanladdiad | 128 | 3.9 | 251 | 3.9 | 379 | 3.9 |
| Cam-drin (gan gynnwys cam-drin rhywiol) | 60 | 1.8 | 215 | 3.4 | 275 | 2.8 |
| Arall | 99 | 3.0 | 141 | 2.2 | 240 | 2.5 |
| Salwch | 73 | 2.2 | 146 | 2.3 | 219 | 2.3 |
| Perthynas â chariad | 55 | 1.7 | 130 | 2.0 | 185 | 1.9 |
| Anhwylderau bwyta | 10 | 0.3 | 156 | 2.4 | 166 | 1.7 |
| Ddim yn hysbys | 48 | 1.5 | 95 | 1.5 | 143 | 1.5 |
| Cam-drin domestig | 49 | 1.5 | 78 | 1.2 | 127 | 1.3 |
| Rhywiol (gan gynnwys tueddfryd) | 26 | 0.8 | 89 | 1.4 | 115 | 1.2 |
| Perthnasoedd ag athrawon | 48 | 1.5 | 66 | 1.0 | 114 | 1.2 |
| Cyfrifoldeb gofalu | 31 | 0.9 | 72 | 1.1 | 103 | 1.1 |
| Materion trawsrywioldeb | 31 | 0.9 | 50 | 0.8 | 81 | 0.8 |
| Camddefnyddio sylweddau | 32 | 1.0 | 30 | 0.5 | 62 | 0.6 |
| Seiberddiogelwch (gan gynnwys seiberfwlio a secstio) | 18 | 0.5 | 24 | 0.4 | 42 | 0.4 |
| Pryderon ariannol/tlodi | 14 | 0.4 | 28 | 0.4 | 42 | 0.4 |
| Troseddu | 8 | 0.2 | 5 | 0.1 | 13 | 0.1 |

Ffynhonnell: Cwnsela ar gyfer plant a phobl ifanc, Llywodraeth Cymru

(a) Gall awdurdodau lleol gofnodi hyd at dri mater a gyflwynir fesul plentyn neu berson ifanc. Mae'r tabl hwn yn dangos nifer a chanran y plant a'r bobl ifanc a oedd â phob mater. Felly, nid yw'r canrannau'n creu cyfanswm o 100.

Prif fater yw'r mater(ion) sylfaenol a nodir yn ystod y broses gwnsela. Er enghraifft, efallai mai dicter yw'r mater a gyflwynir gan berson ifanc, ond trwy'r broses gwnsela, efallai y daw ef/hi i sylweddoli mai'r prif fater yw perthnasoedd teuluol. Gofynnir i awdurdodau lleol gofnodi hyd at dri phrif fater fesul plentyn neu berson ifanc. Mae'r siart isod yn dangos canran y plant a'r bobl ifanc a gafodd eu cwnsela mewn perthynas â phob un o'r pum prif fater mwyaf cyfredin.

**Siart 9: Y prif faterion amlycaf ar gyfer plant a phobl ifanc a gafodd eu cwnsela yng Nghymru yn 2019/20**




Ffynhonnell: Cwnsela ar gyfer plant a phobl ifanc, Llywodraeth Cymru

- Y math mwyaf cyffredin o broblem oedd materion teuluol, a oedd yn broblem i dros draean (36%) o'r holl blant a phobl ifanc a oedd yn derbyn gwasanaethau cwnsela yn 2019/20. Materion yn ymwneud â pryder (34%) a hunan-werth (17%) oedd y mathau mwyaf cyffredin nesaf o brif fater yn 2019/20; gyda'r gyfran yr oedd pryder yn brif fater yn codi o 28% yn 2018/19 i 34% yn 2019/20.
- Fel yn achos y materion a gyflwynwyd, pryder oedd y math mwyaf cyffredin o brif fater ar gyfer merched a materion teuluol ar gyfer bechgyn.
- O'r prif faterion mwyaf cyffredin eraill a chofnodwyd, roedd bechgyn yn fwy tebygol o gael eu hatgyfeirio oherwydd materion dicter, tra roedd merched yn fwy tebygol na bechgyn i gael eu hatgyfeirio oherwydd pryder neu materiod yn ymwneud a hunanwerth.
- Ers 2015/16 bu cynnydd yn y canran o ddigyblion gyda pryder fel mater a gyflwynwyd a prif fater (y ddau yn 12% yn 2015/16).

**Tabl 4: Yr holl brif faterion ar gyfer plant a phobl ifanc a gafodd eu cwnsela yng Nghymru yn 2019/20 (a)**

| Materion sydd wedi codi pan gânt eu hatgyfeirio | Gwryw | | Benyw | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| Teulu | 1,174 | 35.6 | 2,334 | 36.6 | 3,508 | 36.3 |
| Pryder | 923 | 28.0 | 2,345 | 36.8 | 3,268 | 33.8 |
| Hunan-werth | 409 | 12.4 | 1,190 | 18.7 | 1,599 | 16.5 |
| Dicter | 697 | 21.2 | 606 | 9.5 | 1,303 | 13.5 |
| Perthnasoedd ag eraill | 347 | 10.5 | 875 | 13.7 | 1,222 | 12.6 |
| Straen | 407 | 12.4 | 752 | 11.8 | 1,159 | 12.0 |
| Profedigaeth | 330 | 10.0 | 579 | 9.1 | 909 | 9.4 |
| Iselder | 282 | 8.6 | 592 | 9.3 | 874 | 9.0 |
| Ymddygiadol | 332 | 10.1 | 296 | 4.6 | 628 | 6.5 |
| Hunan-niwed | 129 | 3.9 | 461 | 7.2 | 590 | 6.1 |
| Academaidd | 191 | 5.8 | 349 | 5.5 | 540 | 5.6 |
| Bwlio | 190 | 5.8 | 329 | 5.2 | 519 | 5.4 |
| Arall | 103 | 3.1 | 258 | 4.0 | 361 | 3.7 |
| Hunanladdiad | 121 | 3.7 | 231 | 3.6 | 352 | 3.6 |
| Perthynas â chariad | 67 | 2.0 | 193 | 3.0 | 260 | 2.7 |
| Salwch | 91 | 2.8 | 164 | 2.6 | 255 | 2.6 |
| Cam-drin (gan gynnwys cam-drin rhywiol) | 51 | 1.5 | 175 | 2.7 | 226 | 2.3 |
| Ddim yn hysbys | 75 | 2.3 | 111 | 1.7 | 186 | 1.9 |
| Anhwylderau bwyta | 19 | 0.6 | 137 | 2.2 | 156 | 1.6 |
| Perthnasoedd ag athrawon | 70 | 2.1 | 77 | 1.2 | 147 | 1.5 |
| Cam-drin domestig | 46 | 1.4 | 93 | 1.5 | 139 | 1.4 |
| Rhywiol (gan gynnwys tueddfryd) | 34 | 1.0 | 91 | 1.4 | 125 | 1.3 |
| Cyfrifoldeb gofalu | 26 | 0.8 | 73 | 1.1 | 99 | 1.0 |
| Materion trawsrywioldeb | 36 | 1.1 | 57 | 0.9 | 93 | 1.0 |
| Camddefnyddio sylweddau | 23 | 0.7 | 25 | 0.4 | 48 | 0.5 |
| Pryderon ariannol/tlodi | 15 | 0.5 | 32 | 0.5 | 47 | 0.5 |
| Seiberddiogelwch (gan gynnwys seiberfwlio a secstio) | 15 | 0.5 | 29 | 0.5 | 44 | 0.5 |
| Troseddu | 5 | 0.2 | 9 | 0.1 | 14 | 0.1 |

Ffynhonnell: Cwnsela ar gyfer plant a phobl ifanc, Llywodraeth Cymru


(a) Gall awdurdodau lleol gofnodi hyd at dri phrif fater fesul plentyn neu berson ifanc. Mae'r tabl hwn yn dangos nifer a chanran y plant a'r bobl ifanc a oedd â phob mater. Felly, nid yw'r canrannau'n creu cyfanswm o 100.

- Er bod y mwyafrif o gategorïau wedi lleihau, mae nifer y merched sy'n derbyn cwnsela ar gyfer pryder wedi cynyddu, ac er bod y niferoedd yn gymharol fach mae'r nifer sy'n derbyn cwnsela ar gyfer anhwylderau bwyta hefyd i fyny.

## Adran 3: Sgôr Craidd YP Cyfartalog

Mae Craidd YP yn fesur o drallod seicolegol a adroddwyd gan bobl ifanc, cyn ac ar ôl cwnsela. Am wybodaeth bellach ar y ffurflen a gwblhawyd gan bobl ifanc, cyfeiriwch at y ddolen ganlynol: Ffurflen

**Siart 10: Gwelliant ar gyfartaledd yn Sgôr Craidd YP ar gyfer plant a phobl ifanc a gafodd gwnsela yng Nghymru yn ôl awdurdod lleol yn 2019/20**




Ffynhonnell: Cwnsela i bobl ifanc, Llywodraeth Cymru

- Ym Mlaenau Gwent oedd y gwelliant cyfartalog mwyaf yn Sgôr Craidd YP ymysg plant a phobl ifanc a dderbyniodd gwnsela yn 2019/20 (gwelliant yng nghanran Sgôr Craidd YP o 12.2, Siart 10).
- Yng Ngwynedd ac Ynys Môn oedd y gwelliant cyfartalog lleiaf yn Sgôr Craidd YP ymysg plant a phobl ifanc a dderbyniodd gwnsela yn 2019/20 (gwelliant yng nghanran Sgôr Craidd YP o 3.5, Siart 10).


**Tabl 5: Sgôr Craidd YP ar gyfartaledd ar gyfer plant a phobl ifanc a dderbyniodd gwnsela yng Nghymru yn ôl awdurdod lleol yn 2019/20**

| Awdurdod lleol | Sgôr gyfartalog ar y dechrau | Sgôr cyfartalog ar y diwedd | Gwelliant cyfartalog yn y sgôr |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn/Gwynedd | 16.5 | 13.0 | 3.5 |
| Conwy | 17.0 | 11.0 | 6.0 |
| Sir Ddinbych | 17.5 | 12.0 | 5.5 |
| Sir y Fflint | 17.3 | 8.9 | 8.4 |
| Wrecsam | 24.0 | 15.0 | 9.0 |
| Powys | 19.5 | 11.3 | 8.2 |
| Sir Ceredigion | 20.8 | 14.9 | 5.9 |
| Sir Benfro | 19.4 | 11.5 | 7.9 |
| Sir Gaerfyrddin | 20.1 | 12.4 | 7.7 |
| Abertawe | 21.1 | 12.7 | 8.4 |
| Castell-nedd Port Talbot | 24.0 | 14.0 | 10.0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 19.4 | 13.5 | 5.9 |
| Bro Morgannwg | 17.5 | 12.3 | 5.2 |
| Caerdydd | 18.6 | 14.8 | 3.8 |
| Rhondda Cynon Taf | 20.2 | 13.4 | 6.7 |
| Merthyr Tudful | 20.7 | 10.9 | 9.8 |
| Caerffili | 18.2 | 10.2 | 8.0 |
| Blaenau Gwent | 20.9 | 8.8 | 12.2 |
| Torfaen | 21.0 | 11.5 | 9.5 |
| Sir Fynwy | 19.6 | 15.0 | 4.7 |
| Casnewydd | 23.6 | 15.4 | 8.2 |

Ffynhonnell: Cwnsela i bobl ifanc, Llywodraeth Cymru

## Adran 4: Atgyfeiriadau ymlaen

### Siart 11: Nifer y plant a'r bobl ifanc a gafodd eu hatgyfeirio ymlaen ar ôl cwblhau sesiynau cwnsela yng Nghymru yn 2019/20




Ffynhonnell: Cwnsela ar gyfer plant a phobl ifanc, Llywodraeth Cymru

- Casglwyd gwybodaeth am atgyfeiriadau ymlaen ar gyfer plant a phobl ifanc a gafodd eu cwnsela. Nid oedd angen i fwyafrif y plant a'r bobl ifanc a gafodd eu cwnsela gael eu hatgyfeirio ymlaen ar ôl cwblhau sesiynau cwnsela (86% yn 2019/20).
- Roedd merched yn fwy tebygol o gael eu hatgyfeirio ymlaen (8.3% yn 2019/20) yn dilyn cwblhau eu cwnsela na eu cyfoedion a oedd yn fechgyn (7.2% yn 2019/20).
- Atgyfeiriwyd 3.4% o blant a phobl ifanc a dderbyniodd gwnsela ymlaen i'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) yn 2019/20.
- Atgyfeiriwyd o wrywod 3.6% o ferched a 3.0% o fechgyn ymlaen i'r CAMHS yn 2019/20.

### Tabl 6: Nifer y plant a'r bobl ifanc a gafodd eu hatgyfeirio ymlaen ar ôl cwblhau sesiynau cwnsela yng Nghymru yn 2019/20 (a)


| Atgyfeirio'r bobl ifanc | Gwryw | | Benyw | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| CAMHS Arbenigol | 99 | 3.0 | 230 | 3.6 | 329 | 3.4 |
| Amddiffyn Plant | 44 | 1.3 | 87 | 1.4 | 131 | 1.4 |
| Arall | 96 | 2.9 | 215 | 3.4 | 311 | 3.2 |
| Dim | 2,863 | 86.7 | 5,443 | 85.3 | 8,306 | 85.8 |
| Ddim yn hysbys | 199 | 6.0 | 403 | 6.3 | 602 | 6.2 |
| **Cyfanswm** | **3,301** | **100.0** | **6,378** | **100.0** | **9,679** | **100.0** |

Ffynhonnell: Cwnsela ar gyfer plant a phobl ifanc, Llywodraeth Cymru

(a) Nid yw'r cyfanswm yn cyfateb i dablau eraill yn y datganiad hwn gan fod 13 o ddisgyblion wedi'u cyfeirio at CAMHS Arbenigol ac Amddiffyn Plant.

## Adran 5: Sesiynau cwnsela a fynychwyd


### Siart 12: Nifer cyfartalog y sesiynau cwnsela a fynychwyd gan blant a phobl a gafodd eu cwnsela yng Nghymru




Ffynhonnell: Cwnsela ar gyfer plant a phobl ifanc, Llywodraeth Cymru

- Nifer cyfartalog y sesiynau cwnsela a fynychwyd gan blant a phobl ifanc a gafodd eu cwnsela yng Nghymru oedd 5.3 yn 2019/20. Mae nifer cyfartalog y sesiynau wedi aros yn gyson am y pum blynedd diwethaf.
- •Cynhaliwyd tua thri chwarter y sesiynau wyneb yn wyneb yn 2019/20 a chynhaliwyd chwarter o bell oherwydd y pandemig coronafeirws (COVID-19).

### Siart 13: Nifer cyfartalog y sesiynau cwnsela a fynychwyd gan blant a phobl ifanc a gafodd eu cwnsela yng Nghymru, yn ôl awdurdod lleol, yn 2019/20




Ffynhonnell: Cwnsela ar gyfer plant a phobl ifanc, Llywodraeth Cymru

- Mae cryn wahaniaethau yn y nifer cyfartalog y sesiynau cwnsela fesul awdurdod, o 3.7 sesiwn yn Abertawe a 7.1 sesiwn yn Wrecsam.

## Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd

### Cyd-destun polisi a gweithredol

Mae cynghori yn y cyd-destun hwn yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc siarad wyneb yn wyneb âhynghorydd am eu pryderon, i weithio trwy deimladau anodd fel y gallant ddysgu eu rheoli. Lle y bo'n briodol, gall cwnsela arwain at atgyfeiriad i wasanaeth arall (e.e. Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), gwasanaethau amddiffyn plant).

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Lleol ddarparu gwasanaeth cwnsela annibynnol ar safle pob ysgol uwchradd y mae'n ei gynnal. Yn ogystal gall Awdurdod Lleol gynnig gwasanaethau cynghori mewn lleoliadau eraill, e.e. mewn ysgolion annibynnol neu mewn canolfan gymunedol leol, canolfan ieuenctid neu gyfleuster cymunedol arall ar gyfer pobl ifanc nad ydynt yn yr ysgol a / neu'n dymuno cael cwnsela y tu allan i leoliad addysg ffurfiol.

Darparodd Llywodraeth Cymru £ 1.25m ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion i gefnogi cyflwyno cwnsela i gleientiaid presennol a newydd yn ystod y pandemig coronafeirws (COVID-19). Roedd hyn yn cynnwys ehangu mynediad at ddarpariaeth a hefyd sefydlu ffyrdd newydd o weithio fel cyflwyno cwnsela ar-lein trwy gefnogi hyfforddiant mewn cwnsela ar-lein a phrynu trwyddedau meddalwedd i hwyluso cefnogaeth.

### Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

Daeth Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn gyfraith yng Nghymru ar 4 Mawrth 2013. Mae’r Ddeddf yn pennu cynigion i gryfhau safonau ysgolion, gwella penderfyniadau lleol, a lleihau cymhlethdod. O dan Adran 92 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, mae’n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau cwnsela annibynnol rhesymol ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 11 a 18 oed a disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn yr ysgol gynradd. O dan Adran 93, mae’n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth ddienw am y gwasanaethau cwnsela hyn i Lywodraeth Cymru, yn unol â chyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan Adran 93 o Ddeddf 2013.

Lle bo awdurdod lleol wedi trefnu i unigolyn ddarparu gwasanaeth cwnsela annibynnol ar ei ran, rhaid i’r awdurdod roi copi i’r unigolyn o gyfarwyddyd Gweinidogion Cymru, a rhaid i’r unigolyn hwnnw gasglu’r wybodaeth sy’n angenrheidiol i gydymffurfio â’r cyfarwyddyd, a’i chyflwyno i’r awdurdod lleol.

Mae rhagor o wybodaeth am Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar gael trwy ddilyn y ddolen isod:

Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

### Ffynhonnell ddata a chwmpas

Mae hwn yn gasgliad blynyddol sy’n ofynnol I Awdurdodau Lleol ddarparu I Lywodraeth Cymru.

Mae awdurdodau lleol Ynys Môn a Gwynedd yn darparu ffiurflen casglu data ar y cyd, felly ni ellir dangos y data ar gyfer yr awdurdodau hyn ar wahân.

Mae’r ffigurau yn seiliedig ar nifer y plant a’r bobl ifanc a gafodd sesiynau cwnsela wyneb yn wyneb ac a gwblhaodd y sesiynau hynny yn ystod y cyfnod.  Mae cwnsela a gynhaliwyd trwy sesiynau wyneb yn wyneb ar-lein rhwng Mawrth ac Awst 2020 wedi'i gynnwys.

Mae grŵp oedran y plant a'r bobl ifanc hynny a gafodd eu cwnsela yn seiliedig ar eu blwyddyn ysgol yn hytrach na'u hoedran gwirioneddol. Noder nad yw'r holl blant a phobl ifanc a gafodd eu cwnsela yn ddisgyblion ysgol. Lle bo hyn yn wir, mae'r plant a'r bobl ifanc hynny wedi cael eu cynnwys yn y grŵp oedran blwyddyn ysgol y byddent fel arfer yn ei mynychu pe byddent yn yr ysgol.

Oherwydd sensitifrwydd y data, rhaid iddynt gael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru trwy gyfrwng diogel a'u cadw mewn amgylchedd diogel. Y cyfrwng diogel ar gyfer trosglwyddo'r data yw AFON.

Rhaid i'r awdurdod lleol, neu'r unigolyn sy'n darparu'r gwasanaeth cwnsela, beidio â darparu gwybodaeth am unigolyn dynodedig na darparu gwybodaeth mewn ffordd (naill ai ar wahân neu ar y cyd â gwybodaeth arall) sy'n adnabod unigolyn, neu sy'n galluogi unigolyn i gael ei adnabod.

Mae rhagor o wybodaeth am y gofynion data ar gael yn 'Canllawiau statudol i awdurdodau lleol yng Nghymru ynghylch darpariaeth gwasanaethau cwnsela annibynnol', sydd ar gael drwy'r ddolen isod:

Canllawiau statudol i awdurdodau lleol yng Nghymru ynghylch darpariaeth gwasanaethau cwnsela annibynnol.

### Pwy yw prif ddefnyddwyr y data hyn?

Defnyddir yr ystadegau hyn yn eang yn Llywodraeth Cymru a'r tu hwnt iddi. Dyma rai o'r prif ddefnyddwyr:

- Gweinidogion a Gwasanaeth Ymchwil y Senedd
- Aelodau Senedd Cymru
- Adrannau eraill o'r llywodraeth
- Awdurdodau lleol
- Byrddau Iechyd Lleol, gan gynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)
- Adran Addysg yn Llywodraeth Cymru
- Meysydd eraill o Lywodraeth Cymru
- Y gymuned ymchwil
- Myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion
- Dinasyddion unigol a chwmnïau preifat

### I ba ddiben y defnyddir y data?

Defnyddir yr ystadegau hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd. Dyma rai enghreifftiau:

- Cynghori Gweinidogion
- Llywio'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch y polisi addysg yng Nghymru
- Cynorthwyo ag ymchwil i wasanaethau cwnsela ar gyfer plant a phobl ifanc
- Monitro a gwerthuso gwasanaethau cwnsela yng Nghymru, ar lefel leol a chenedlaethol. Gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r data a gesglir ganddynt i fonitro a gwerthuso'r gwasanaethau cwnsela a ddarperir yn eu hardal, er mwyn llywio'r gwaith o'u gwella
- Adnabod y prif faterion a phryderon ymhlith plant a phobl ifanc a all effeithio ar eu hiechyd meddwl

### Ansawdd

Cynhyrchir ein hystadegau i safonau proffesiynol uchel a bennir yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Maent yn destun adolygiadau sicrwydd ansawdd rheolaidd, er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion cwsmeriaid. Cânt eu cynhyrchu heb unrhyw ymyrraeth wleidyddol.

### Amseroldeb a phrydlondeb

Mae awdurdodau lleol, a'u darparwyr gwasanaethau cwnsela lle bo hynny'n berthnasol, yn crynhoi data cyfanredol ar blant a phobl ifanc sy'n cael eu cwnsela, ac yn cyflwyno'r data i Lywodraeth Cymru. Mae'n ofynnol darparu gwybodaeth a gasglwyd ar gyfer pob blwyddyn ysgol academaidd yn dilyn diwedd y flwyddyn ysgol academaidd. Oherwydd y pandemig coronafeirws (COVID-19), estynnwyd y dyddiad cau ar gyfer data ar gyfer blwyddyn ysgol academaidd 2019/20 i 18 Rhagfyr 2020. Yna dilyswyd y ffurflenni gan Lywodraeth Cymru a'u cyhoeddi mewn datganiad ystadegol ym mis Mai, deufis yn hwyrach nag mewn blynyddoedd blaenorol.

### Hygyrchedd ac eglurder

Caiff y datganiad Ystadegol Cyntaf hwn ei rag-gyhoeddi ac yna'i gyhoeddi ar adran Ystadegau ac Ymchwil gwefan Llywodraeth Cymru. Fe'i hategir gan dablau manylach ar wefan StatsCymru, gwasanaeth am ddim sy'n galluogi ymwelwyr i weld, trin, creu a lawrlwytho data.

### Cymaroldeb a chydlyniad

Er 2014, gwnaethpwyd cryn dipyn o waith ar ganllawiau a diffiniadau er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson rhwng awdurdodau, egluro rhai materion hysbys o ran arolygon cynharach, ac adlewyrchu'r polisi cyfredol. Oherwydd hyn, dylai unrhyw gymhariaeth gyda data cyn 2015/16 gael ei ddehongli'n ofalus.

Ni chyhoeddir unrhyw ystadegau swyddogol gan wledydd eraill y DU ar wasanaethau cwnsela ar gyfer plant a phobl ifanc.

## Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol

Nod Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi ar waith saith nod llesiant i Gymru, sy'n anelu at greu Cymru fwy cyfartal, ffyniannus, cryf, iach a chyfrifol yn fyd-eang, sydd â chymunedau cydlynus, diwylliant llewyrchus ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu. O dan Adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) cyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y dylid eu cymhwyso er mwyn mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau Llesiant, a (b) cyflwyno copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. Cyflwynwyd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol ym mis Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn adroddiad Llesiant Cymru.

Gwybodaeth bellach am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gallai'r ystadegau sy'n rhan o'r datganiad hwn hefyd ddarparu naratif i ategu'r dangosyddion cenedlaethol, a gallent gael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen ar gael yn:

https://llyw.cymru/cwnsela-ar-gyfer-plant-phobl-ifanc

## Y diweddariad nesaf

Mawrth 2022 (dros dro)

## Rydym am gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn, y gellir eu darparu trwy neges e-bost i ystadegau.ysgolion@llyw.cymru. Os oes gennych unrhyw sylwadau, neu os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni.

## Trwydded Llywodraeth Agored

OGL

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0, oni nodir fel arall.